Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 1343 (Cy. 219)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n darparu bwyd a diod ar ddiwrnod ysgol i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion cynradd a gynhelir, pa un a ddarperir y bwyd a'r ddiod ar fangre ysgol ai peidio. At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyr "ysgol gynradd a gynhelir" yw ysgol a gynhelir sy'n darparu addysg gynradd (pa un a yw hefyd yn darparu mathau eraill o addysg ai peidio). Ystyr "ysgol a gynhelir" yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru neu ysgol feithrin a gynhelir fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1). Pan fo ysgol gynradd a gynhelir hefyd yn darparu addysg uwchradd, bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i fwyd a diod a ddarperir i ddisgyblion cofrestredig ym mlwyddyn 6 ac is yn unig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r mathau o fwyd a diod y mae rhaid eu darparu ac na chaniateir eu darparu a pha mor aml y mae rhaid darparu bwydydd penodol neu ba mor aml na chaniateir darparu bwydydd penodol. Maent hefyd yn rhagnodi cynnwys ciniawau ysgol cyfartalog o ran egni a maethynnau.

Mae rheoliad 2(2) a (3) yn nodi'r amgylchiadau pan na fydd y Rheoliadau hyn yn gymwys.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion yn Atodlen 2 pan fo'n darparu brecwast ysgol i ddisgyblion cofrestredig.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion yn Atodlen 3 a'r safonau maeth yn Atodlen 5 wrth ddarparu ciniawau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ysgol i ddisgyblion cofrestredig. Nid yw'r safonau maeth yn Atodlen 5 yn gymwys i ginio ysgol a ddarperir i nodi unrhyw achlysur crefyddol neu ddiwylliannol. Gan fod rhai o'r gofynion yn Atodlen 3 yn cyfeirio at ba mor aml y mae rhaid darparu bwydydd penodol, neu ba mor aml na chaniateir darparu bwydydd penodol, drwy gyfeirio at wythnos, mae rheoliad 4(4) yn darparu nad yw gofynion penodol yn gymwys pan fo'r ysgol ar agor am lai nag wythnos.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion yn Atodlen 4 pan fo'n darparu i ddisgyblion cofrestredig fwyd neu ddiod cyn 6pm ar ddiwrnod ysgol heblaw fel rhan o frecwast ysgol neu ginio ysgol.

Mae rheoliad 6 ac Atodlen 6 yn gwneud darpariaethau canlyniadol i Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") fel nad yw Rheoliadau 2013 ond yn gymwys i ysgolion uwchradd a gynhelir o 31 Hydref 2026. Maent hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau eraill i Reoliadau 2013.

Mae Atodlen 1 yn diffinio cynnyrch cig penodedig.

Mae Atodlen 2 yn rhagnodi gofynion sy'n ymwneud â bwyd a diod a ddarperir fel brecwast ysgol.

Mae Atodlen 3 yn rhagnodi gofynion sy'n ymwneud â bwyd a diod a ddarperir fel rhan o ginio ysgol.

Mae Atodlen 4 yn rhagnodi gofynion sy'n ymwneud â bwyd a diod a ddarperir cyn 6pm ar ddiwrnod ysgol heblaw fel rhan o frecwast ysgol neu ginio ysgol.

Mae Atodlen 5 yn rhagnodi'r safon egni sy'n gymwys i'r cinio ysgol dyddiol cyfartalog a'r safonau egni a maeth sy'n gymwys i'r cinio ysgol cyfartalog mewn cylch bwydlenni. Mae safonau gwahanol o ran egni a maeth yn gymwys i'r cinio ysgol cyfartalog a ddarperir i ddisgybl o oedran babanod a'r cinio ysgol cyfartalog a ddarperir i ddisgybl iau. Mae "disgybl o oedran babanod" a "disgybl iau" wedi eu diffinio yn rheoliad 2(1). Mae'r egni a'r maethynnau a ddarperir mewn bara atodol ac mewn cinio ysgol sydd wedi ei gyfansoddi o fwyd a diod yr amcangyfrifir ei fod i gael ei weini i lai nag 1% o'r disgyblion cofrestredig y gweinir cinio ysgol iddynt mewn ysgol gynradd a gynhelir neu grŵp o ysgolion (fel y'i diffinnir yn Atodlen 5) wedi eu heithrio o'r cyfrifiadau sy'n ofynnol gan Atodlen 5.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

hyn. Gellir cael copi oddi wrth Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1343 (Cy. 219)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Rhagfyr 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *17 Rhagfyr 2025* |
| *Yn dod i rym* | *31 Hydref 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 4(1), (2) ac (8) a 10(2) a (3) o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009(**1**), a hwythau wedi cymryd camau i ganfod barn disgyblion ac ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y maent yn barnu eu bod yn briodol fel sy'n ofynnol gan adran 4(11) o'r Mesur hwnnw.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Hydref 2026.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "addysg gynradd" yr ystyr a roddir i "primary education" gan adran 2(1) o Ddeddf 1996(**2**);

(**1**) 2009 mccc 3.
(**2**) Amnewidiwyd adran 2(1) gan adran 156(2) o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "addysg uwchradd" yr ystyr a roddir i "secondary education" gan adran 2(2) o Ddeddf 1996;

ystyr "anghenion deietegol sydd wedi eu rhagnodi'n feddygol" ("*medically prescribed dietary requirements*") yw anghenion deietegol a ragnodir neu a argymhellir yn ysgrifenedig ar gyfer disgybl gan—

(a) ymarferydd meddygol cofrestredig, neu

(b) deietegydd sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 4 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(**1**);

mae i "awdurdod lleol" ("*local authority*") yr ystyr a roddir i "local authority in Wales" gan adran 579(1) o Ddeddf 1996(**2**);

ystyr "bara atodol" ("*supplementary bread*") yw bara nad yw'n rhan o frechdan nac o bryd bwyd gosod;

ystyr "blwyddyn 1" ("*year 1*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 6 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 2" ("*year 2*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 7 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 3" ("*year 3*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 8 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 4" ("*year 4*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 9 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 5" ("*year 5*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 10 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 11 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn derbyn" ("*reception year*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 5 oed ynddo;

mae i "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "school year" gan adran 579(1) o Ddeddf 1996(**3**);

ystyr "brecwast ysgol" ("*school breakfast*") yw bwyd a ddarperir i'w fwyta a diod a ddarperir i'w hyfed gan ddisgyblion ar ddiwrnod ysgol cyn dechrau'r sesiwn ysgol foreol, neu yn achos ysgol

---

(**1**) O.S. 2002/254, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/1182; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Amnewidiwyd ystyr "local authority in Wales" yn adran 579(1) gan erthygl 3 o O.S. 2010/1158.

(**3**) Mewnosodwyd y diffiniad o "school year" yn adran 579(1) gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

arbennig gymunedol cyn neu ar ddechrau'r sesiwn ysgol foreol;

mae "brechdanau" ("*sandwiches*") yn cynnwys rholiau wedi eu llenwi a chynhyrchion tebyg sy'n barod i'w bwyta heb baratoi pellach;

ystyr "byrbrydau sawrus" ("*savoury snacks*") yw eitemau sawrus wedi eu rhagbecynnu sy'n barod i'w bwyta heb baratoi pellach ac sydd wedi eu cyfansoddi o datws neu wreiddlysiau eraill, cnau, codlysiau, grawnfwydydd neu hadau, neu sy'n eu cynnwys fel cynhwysyn sylfaenol, ond nid yw'n cynnwys—

(a) cnau, codlysiau, gwreiddlysiau neu hadau sydd heb fraster, halen neu siwgr wedi ei ychwanegu,

(b) bisgedi dŵr, cracers neu dorthau ceirch, plaen heb gyflas, neu

(c) brechdanau;

ystyr "cig" ("*meat*") yw cyhyrau ysgerbydol rhywogaethau o famaliaid ac adar y cydnabyddir eu bod yn addas i'w bwyta gan bobl gyda'r feinwe y mae'n ei chynnwys yn naturiol neu feinwe ymlynol ond nid yw'n cynnwys cig a wahenir yn fecanyddol;

mae i "cig a wahenir yn fecanyddol" yr ystyr a roddir i "mechanically separated meat" ym mhwynt 1.14 o Atodiad 1 i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**1**);

ystyr "cig coch" ("*red meat*") yw cig o rywogaethau o famaliaid gan gynnwys cig carw, cig dafad, cig eidion, cig gafr, cig llo, cig oen a phorc ond heb gynnwys cig cwningen;

ystyr "cinio ysgol" ("*school lunch*") yw bwyd a ddarperir i'w fwyta a diod a ddarperir i'w hyfed gan ddisgyblion fel eu pryd bwyd canol dydd ar ddiwrnod ysgol, pa un a yw hynny'n golygu pryd bwyd gosod neu ddetholiad o eitemau i'w dewis ganddynt;

mae "corff llywodraethu" ("*governing body*"), mewn perthynas ag ysgol gynradd a gynhelir sy'n uned cyfeirio disgyblion, yn cynnwys pwyllgor rheoli yr uned cyfeirio disgyblion;

mae "cynhyrchion pob wedi eu melysu a phwdinau wedi eu melysu" ("*sweetened baked products and desserts*") yn cynnwys crwst melys a chynhyrchion melys sy'n cynnwys crwst ond nid yw'n cynnwys iogwrt ar dymheredd amgylchynol nac iogwrt wedi ei oeri;

(**1**) EUR 2004/853 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "cynnyrch cig penodedig" ("*specified meat product*") yr ystyr a roddir iddo gan Atodlen 1;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "dewisiadau amgen wedi eu prosesu yn lle cig a physgod" ("*processed alternatives to meat and fish*") yw cynhyrchion bwyd wedi eu prosesu, nad ydynt yn gig nac yn bysgod, a gynhyrchir yn ddiwydiannol ac sy'n ceisio dynwared cynhyrchion cig neu bysgod, megis selsig a byrgyrs mycoprotein a selsig a byrgyrs sydd wedi eu seilio ar blanhigion ond heb gynnwys briwgig, talpiau na darnau o soia, mycoprotein na phrotein pys;

ystyr "diodydd plaen sydd wedi eu seilio ar blanhigion" ("*plain plant-based drinks*") yw diodydd ceirch, diodydd soia neu ddiodydd eraill sydd wedi eu seilio ar blanhigion (ond heb gynnwys diodydd reis)—

(a) sydd wedi eu cyfnerthu â chalsiwm,

(b) sydd heb gyflas, ac

(c) nad ydynt yn cynnwys siwgrau rhydd;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" gan adran 3(1) o Ddeddf 1996(**2**);

ystyr "disgybl cofrestredig" ("*registered pupil*") yw plentyn sydd wedi ei gofrestru yn ddisgybl mewn ysgol gynradd a gynhelir mewn cofrestr a gedwir o dan adran 434 o Ddeddf 1996;

ystyr "disgybl iau" ("*junior pupil*") yw disgybl cofrestredig ym mlwyddyn 3, blwyddyn 4, blwyddyn 5 neu flwyddyn 6;

ystyr "disgybl o oedran babanod" ("*infant pupil*") yw disgybl cofrestredig mewn dosbarth meithrin, mewn blwyddyn derbyn, ym mlwyddyn 1 neu ym mlwyddyn 2;

ystyr "diwrnod ysgol" ("*school day*"), mewn perthynas ag ysgol gynradd a gynhelir, yw unrhyw ddiwrnod y cynhelir o leiaf un sesiwn ysgol arno yn yr ysgol honno;

ystyr "dosbarth meithrin" ("*nursery class*") yw dosbarth o ddisgyblion y mae addysg sy'n addas i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn cael ei darparu iddynt;

nid yw "ffrwythau" ("*fruit*") yn cynnwys sudd ffrwythau;

mae "grawn cyflawn" ("*wholegrain*") yn cynnwys gwenith cyflawn;

---

(**1**) 1996 p. 56.

(**2**) Diwygiwyd adran 3(1) gan adran 57(1) o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) a pharagraff 9 o Atodlen 7 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o ddisgyblion mewn ysgol gynradd a gynhelir y bydd y mwyafrif ohonynt, yn ystod blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

mae "llysiau" ("*vegetables*") yn cynnwys salad ond nid yw'n cynnwys tatws;

ystyr "mangre ysgol" ("*school premises*") yw mangre ysgol gynradd a gynhelir;

ystyr "melysion" ("*confectionery*") yw—

(a) barrau grawnfwyd;

(b) gwm cnoi;

(c) siocled ar unrhyw ffurf;

(d) unrhyw gynnyrch sy'n cynnwys siocled neu sydd wedi ei gaenu'n gyfan gwbl neu'n rhannol â siocled;

(e) unrhyw sylwedd â blas siocled ac eithrio powdr coco a ddefnyddir mewn cynhyrchion pob wedi eu melysu a phwdinau wedi eu melysu;

(f) eisin sydd wedi ei wneud o siwgr neu haenau uchaf addurnol sydd wedi eu gwneud o siwgr;

(g) barrau ffrwythau wedi eu prosesu neu eu hallwthio;

(h) melysion eraill nad ydynt yn rhai siocled (pa un a ydynt yn cynnwys siwgr ai peidio) gan gynnwys rhai mintys;

mae i "oedran ysgol gorfodol" yr ystyr a roddir i "compulsory school age" gan adran 8 o Ddeddf 1996(**1**);

ystyr "sesiwn ysgol" ("*school session*"), mewn perthynas ag ysgol gynradd a gynhelir, yw sesiwn ysgol sy'n dechrau ac yn dod i ben ar amseroedd a bennir o bryd i'w gilydd ar gyfer yr ysgol honno yn unol ag adran 32C o Ddeddf Addysg 2002(**2**);

ystyr "siwgrau rhydd" ("*free sugars*") yw—

(a) yr holl fonosacaridau a deusacaridau a ychwanegir at fwydydd, a

(b) yr holl siwgrau sy'n bresennol yn naturiol mewn mêl, sudd ffrwythau heb ei felysu a suropau;

ystyr "sudd ffrwythau" ("*fruit juice*") yw—

(a) cynnyrch sy'n cydymffurfio â'r fanyleb yn Atodlen 2 (manyleb sudd ffrwythau) i Reoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013(**3**), neu

---

(**1**) Diwygiwyd adran 8 gan adran 52 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).

(**2**) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32C gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5).

(**3**) O.S. 2013/2750 (Cy. 267), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) cynnyrch sy'n cydymffurfio â'r fanyleb yn Atodlen 3 (manyleb sudd ffrwythau o ddwysfwyd) i Reoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013;

mae i "taith breswyl" yr ystyr a roddir i "residential trip" gan adran 462(2) o Ddeddf 1996(**1**);

mae i "uned cyfeirio disgyblion" yr ystyr a roddir i "pupil referral unit" gan adran 19A o Ddeddf 1996(**2**);

ystyr "wythnos" ("*week*") yw'r pum niwrnod o ddydd Llun i ddydd Gwener;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru neu ysgol feithrin a gynhelir;

ystyr "ysgol feithrin a gynhelir" ("*maintained nursery school*") yw ysgol feithrin a gynhelir gan awdurdod lleol ac nad yw'n ysgol arbennig;

ystyr "ysgol fyrddio" ("*boarding school*") yw ysgol gynradd a gynhelir a chanddi ddisgyblion byrddio, pa un a oes ganddi ddisgyblion dydd hefyd ai peidio;

ystyr "ysgol gynradd a gynhelir" ("*maintained primary school*") yw ysgol a gynhelir sy'n darparu addysg gynradd (pa un a yw hefyd yn darparu mathau eraill o addysg ai peidio).

(2) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn sy'n gymwys i fwyd na diod a ddarperir—

(a) yn ystod digwyddiadau i godi arian;

(b) i'w ddefnyddio neu i'w defnyddio i addysgu sgiliau paratoi bwyd neu ddiod a choginio ar yr amod nad yw unrhyw fwyd neu ddiod sy'n cael ei baratoi neu ei pharatoi felly yn cael ei ddarparu neu ei darparu i ddisgyblion cofrestredig fel rhan o frecwast ysgol neu ginio ysgol;

(c) fel rhan o unrhyw anghenion deietegol sydd wedi eu rhagnodi'n feddygol;

(d) i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol fyrddio fel rhan o bryd gyda'r hwyr;

(e) i ddisgyblion cofrestredig ar daith breswyl;

(f) i ddisgyblion cofrestredig ar fangre ysgol a gynhelir nad yw'n darparu addysg gynradd.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i fwyd a diod a ddarperir i nodi unrhyw achlysur crefyddol neu

(**1**) Diwygiwyd adran 462(2) gan baragraff 7(2) o Atodlen 2 i O.S. 2010/1158.

(**2**) Mewnosodwyd adran 19A gan baragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ddiwylliannol heblaw pan ddarperir y bwyd a'r ddiod fel cinio ysgol.

(4) Pan fo ysgol gynradd a gynhelir yn darparu addysg gynradd ac uwchradd, mae unrhyw gyfeiriad yn rheoliadau 3 i 5 at ddisgybl cofrestredig yn gyfeiriad at ddisgybl o oedran babanod neu at ddisgybl iau.

(5) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at fwyd neu ddiod a ddarperir gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir yn cynnwys bwyd neu ddiod a ddarperir yn unol â chytundeb neu drefniant arall a wneir gan awdurdod neu gorff o'r fath ar gyfer darparu bwyd neu ddiod.

(6) Yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir" ym mharagraff (1), mae i'r ymadroddion Cymraeg canlynol yr un ystyr ag a roddir i'r termau Saesneg cyfatebol gan adran 20 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**)—

(a) ysgol gymunedol ("community school");

(b) ysgol sefydledig ("foundation school");

(c) ysgol wirfoddol ("voluntary school");

(d) ysgol arbennig gymunedol ("community special school").

**Brecwast ysgol mewn ysgolion cynradd a gynhelir**

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir yn darparu brecwast ysgol i ddisgyblion cofrestredig pa un ai ar fangre ysgol neu mewn man nad yw'n fangre ysgol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion yn Atodlen 2.

**Cinio ysgol mewn ysgolion cynradd a gynhelir**

**4.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir yn darparu cinio ysgol i ddisgyblion cofrestredig pa un ai ar fangre ysgol neu mewn man nad yw'n fangre ysgol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion yn Atodlen 3 a'r safonau maeth yn Atodlen 5.

(3) Ond pan ddarperir cinio ysgol y cyfeirir ato ym mharagraff (1) i nodi unrhyw achlysur crefyddol neu

(**1**) 1998 p. 31. Diwygiwyd adran 20 gan baragraff 95 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), gan baragraff 13 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40), gan baragraff 10(2) a (3) o Atodlen 2 i O.S. 2010/1158, a chan baragraff 19(1) a (2) o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ddiwylliannol, mae paragraff (2) yn gymwys ond fel pe bai "a'r safonau maeth yn Atodlen 5" wedi ei hepgor.

(4) Pan fo ysgol ar agor am lai na phum niwrnod mewn unrhyw wythnos nid yw'r gofynion ym mharagraffau 2(2), 3(2), 5(2) a (3), 7(1), 8(1) ac 11(1) o Atodlen 3 yn gymwys.

**Darparu bwyd neu ddiod arall mewn ysgolion cynradd a gynhelir**

**5.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir yn darparu bwyd neu ddiod cyn 6pm ar ddiwrnod ysgol heblaw fel rhan o frecwast ysgol neu ginio ysgol i ddisgyblion cofrestredig pa un ai ar fangre ysgol neu mewn man nad yw'n fangre ysgol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion yn Atodlen 4.

**Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013**

**6.** Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013(**1**) wedi eu diwygio fel y nodir yn Atodlen 6.

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
12 Rhagfyr 2025

## ATODLEN 1

Rheoliad 2

## Cynnyrch cig penodedig

**1.**—(1) Cynnyrch cig penodedig yw bwyd sy'n dod o fewn is-baragraff (2) oni bai ei fod yn dod o fewn is-baragraff (3).

(2) (a) bacwn;

(b) byrgyr sydd wedi ei gyfansoddi o gymysgedd o gig a chynhwysion eraill;

(c) cig mewn can neu mewn tun;

(d) chorizo;

(e) corn-gig;

(f) gamwn;

(**1**) O.S. 2013/1984 (Cy. 194), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/2750 (Cy. 267), O.S. 2014/2303 (Cy. 227), O.S. 2014/3087 (Cy. 308), O.S. 2019/463 (Cy. 111) ac O.S. 2019/1094.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(g) ham;

(h) peli cig;

(i) pastrami;

(j) pate sy'n cynnwys cig neu afu o unrhyw rywogaethau o famaliaid neu adar;

(k) salami, gan gynnwys pepperoni;

(l) selsigen sydd wedi ei chyfansoddi o gymysgedd o gig a chynhwysion eraill;

(m) bwyd sy'n cynnwys un o'r canlynol fel cynhwysyn pa un a yw'r bwyd hefyd yn cynnwys unrhyw gynhwysyn arall ai peidio—

(i) cig a wahenir yn fecanyddol;

(ii) calon, carpws, cyhyrau pen (heblaw cyhyrau maseter), cynffon, tafod neu darsws unrhyw rywogaethau o famaliaid neu adar y cydnabyddir eu bod yn addas i'w bwyta gan bobl;

(n) unrhyw gynnyrch arall o gig wedi ei siapio neu ei ffurfio sy'n cynnwys cymysgedd o gig a chynhwysion eraill, ac nad yw'n dod o fewn paragraffau (a) i (m).

(3) Nid yw bwyd sy'n dod o fewn is-baragraff (2)(b), (h) neu (n) yn gynnyrch cig penodedig os—

(a) y'i darperir fel rhan o ginio ysgol, a

(b) y'i gwneir gan ddefnyddio cymysgedd o gig a chynhwysion eraill—

(i) ar fangre ysgol;

(ii) ar fangre sy'n eiddo i awdurdod lleol neu a feddiennir ganddo;

(iii) pan fo gan yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir gontract â thrydydd parti i ddarparu ciniawau ysgol, ar fangre sy'n eiddo i'r trydydd parti hwnnw neu a feddiennir ganddo.

**2.** Yn yr Atodlen hon—

mae "ham" ("*ham*") yn cynnwys ham serrano, jambon de Paris, prosciutto a chynhyrchion tebyg;

mae "selsigen" ("*sausage*") yn cynnwys chipolata, ci corn, ci poeth, cig selsig, frankfurter a chynhyrchion tebyg;

nid yw "unrhyw gynnyrch arall o gig wedi ei siapio neu ei ffurfio" ("*any other shaped or formed meat product*") yn cynnwys sleisen o doriad cig.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 2

Rheoliad 3

## Brecwast ysgol mewn ysgolion cynradd a gynhelir

**1.** Rhaid i fwyd a diod o bob un o'r categorïau bwyd a diod fod ar gael ar bob diwrnod ysgol.

**2.**—(1) Ni chaniateir darparu bwyd a diod heblaw bwyd a diod o'r categorïau bwyd a diod.

(2) Ond caniateir darparu dŵr plaen (llonydd neu befriog).

**3.** Rhaid rhoi i ddisgybl cofrestredig y darperir brecwast ysgol iddo yr opsiwn i ddewis un eitem o bob un o'r categorïau bwyd a diod.

**4.** Rhaid i unrhyw laeth plaen a ddarperir fod—

(a) yn llaeth cyflawn neu'n llaeth hanner sgim pan ddarperir y ddiod i ddisgybl cofrestredig mewn dosbarth meithrin, a

(b) yn llaeth hanner sgim, yn llaeth ag 1% o fraster neu'n llaeth sgim pan ddarperir y ddiod i ddisgybl cofrestredig mewn blwyddyn derbyn, ym mlwyddyn 1 neu ym mlwyddyn 2 neu i ddisgybl iau.

**5.** Nid oes unrhyw halen i gael ei ychwanegu at fwyd, nac i fod ar gael i'w ychwanegu at fwyd, ar ôl i'r broses goginio gael ei chwblhau.

**6.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "categorïau bwyd a diod" ("*food and drink categories*") yw'r categorïau bwyd a diod a restrir yn Nhabl 1;

ystyr "taeniadau â llai o fraster" ("*reduced fat spreads*") yw taeniadau a wneir o olew llysieuol annirlawn, gan gynnwys olew blodau'r haul, olew had rêp neu olew olewydd.

**Tabl 1**

| *Categorïau Bwyd a Diod* |
|---|
| Llaeth plaen a diodydd plaen sydd wedi eu seilio ar blanhigion |
| Grawnfwydydd – heb eu caenu na'u cyflasu â phowdr coco, siocled neu siwgr nac unrhyw gyfuniad o'r cynhwysion hynny |
| Ffrwythau a llysiau |
| Bara (o leiaf 50% o rawn cyflawn) a thaeniadau â llai o fraster |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 3 Rheoliad 4

## Bwyd a diod a ddarperir fel rhan o ginio ysgol mewn ysgolion cynradd a gynhelir

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon, ystyr "dogn" yw maint o fwyd penodol a ddarperir i ddisgybl cofrestredig fel rhan o ginio ysgol.

### Llysiau

**2.**—(1) Rhaid darparu o leiaf ddau ddogn o lysiau bob dydd.

(2) Rhaid darparu o leiaf chwe llysieuyn gwahanol bob wythnos.

(3) Wrth gyfrifo nifer y llysiau gwahanol a ddarperir o dan is-baragraff (2), mae llysiau gwahanol a ddarperir fel un dogn yn cyfrif fel un llysieuyn.

### Ffrwythau

**3.**—(1) Rhaid darparu o leiaf un dogn o ffrwythau bob dydd.

(2) Rhaid darparu o leiaf bedwar ffrwyth gwahanol bob wythnos.

(3) Wrth gyfrifo nifer y ffrwythau gwahanol a ddarperir o dan is-baragraff (2), mae ffrwythau gwahanol a ddarperir fel un dogn yn cyfrif fel un ffrwyth.

### Dogn pwdin o ffrwythau neu lysiau

**4.**—(1) Pan y'i darperir, rhaid i'r bwyd a ganlyn gynnwys dogn pwdin o ffrwythau neu lysiau neu rhaid darparu dogn o'r fath gydag ef—

(a) cynhyrchion pob wedi eu melysu a phwdinau wedi eu melysu;

(b) caws (gyda neu heb fisgedi dŵr, cracers neu dorthau ceirch, plaen heb gyflas) a ddarperir ar ddiwedd cinio ysgol;

(c) iogwrt ar dymheredd amgylchynol neu iogwrt wedi ei oeri.

(2) Dogn pwdin o ffrwythau neu lysiau yw—

(a) o leiaf 10g o ffrwythau sych neu o leiaf 20g o unrhyw ffrwythau neu lysiau eraill pan y'i darperir i ddisgybl o oedran babanod;

(b) o leiaf 15g o ffrwythau sych neu o leiaf 40g o unrhyw ffrwythau neu lysiau eraill pan y'i darperir i ddisgybl iau.

(3) Pan fo dogn pwdin o ffrwythau neu lysiau yn ofynnol o dan is-baragraff (1), rhaid ei ddarparu yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ychwanegol at y dognau o ffrwythau a llysiau a ddarperir o dan baragraffau 2(1) a 3(1).

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "ffrwythau neu lysiau" yw naill ai ffrwythau neu lysiau neu gyfuniad o'r ddau.

**Carbohydradau startslyd**

**5.**—(1) Rhaid darparu dogn o garbohydradau startslyd bob dydd.

(2) Rhaid i o leiaf un dogn o garbohydradau startslyd a ddarperir bob wythnos fod yn basta, yn nwdls neu'n reis sy'n cynnwys o leiaf 50% o rawn cyflawn.

(3) Rhaid darparu o leiaf dri charbohydrad startslyd gwahanol bob wythnos.

(4) Yn y paragraff hwn, mae "carbohydradau startslyd" yn cynnwys—

- (a) bara,
- (b) cwscws,
- (c) nwdls,
- (d) pasta,
- (e) tatws heblaw tatws a chynhyrchion tatws sydd wedi eu coginio mewn braster neu olew, ac
- (f) reis.

**Bara**

**6.**—(1) Rhaid i fara atodol heb fraster nac olew ychwanegol fod ar gael bob dydd.

(2) Rhaid i bob math o fara a ddarperir, ac eithrio bara garlleg, bara naan, cacennau te, cramwyth a seiliau pitsas, fod o leiaf 50% o rawn cyflawn.

**Pysgod**

**7.**—(1) Rhaid darparu dogn o bysgod o leiaf unwaith bob wythnos.

(2) Ond rhaid i o leiaf un dogn o bysgod a ddarperir bob pedair wythnos fod yn bysgod olewog.

(3) Rhaid i bysgod a gyfunir ag o leiaf un cynhwysyn arall i ffurfio cynnyrch pysgod gynnwys o leiaf 50% o bysgod, wedi ei fesur yn ôl pwysau'r cynhwysion wedi eu coginio.

(4) Yn y paragraff hwn, mae "pysgod olewog" yn cynnwys brithyllod, brwyniaid, ciperi, eogiaid, mecryll, penwaig, penwaig Mair, sardîns a silod mân.

**Cig coch**

**8.**—(1) Rhaid darparu dogn o gig coch o leiaf unwaith bob wythnos.

(2) Ni chaniateir darparu dogn o gig coch fwy na dwywaith bob wythnos.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn y paragraff hwn, nid yw "cig coch" yn cynnwys cynnyrch cig penodedig.

**Cynhyrchion cig penodedig**

**9.**—(1) Ni chaniateir darparu dogn o gynnyrch cig penodedig fwy nag unwaith bob wythnos.

(2) Ond—

(a) nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i ddogn o ham a ddarperir fel rhan o ginio ysgol ar drip ysgol, a

(b) wrth gyfrifo nifer yr adegau y darperir dogn o gynnyrch cig penodedig bob wythnos, ni chaniateir i ddogn o ham a ddarperir fel rhan o ginio ysgol ar drip ysgol fod yn rhan o'r cyfrifiad.

**Dewisiadau amgen wedi eu prosesu yn lle cig a physgod**

**10.** Ni chaniateir darparu dogn o ddewisiadau amgen wedi eu prosesu yn lle cig a physgod fwy na dwywaith bob wythnos.

**Ffa a phylsau**

**11.**—(1) Rhaid i naill ai ffa neu bylsau neu'r ddau, o leiaf unwaith bob wythnos, gael eu darparu fel y brif ffynhonnell o brotein mewn cinio ysgol nad yw'n cynnwys cig na physgod.

(2) Ystyr "cinio ysgol nad yw'n cynnwys cig na physgod" yn is-baragraff (1) yw cinio ysgol a ddarperir fel dewis amgen yn lle cinio ysgol sy'n darparu cig neu bysgod ar yr un diwrnod ysgol.

**Tatws a chynhyrchion tatws**

**12.** Ni chaniateir darparu dogn o datws na chynhyrchion tatws sydd wedi eu coginio mewn braster neu olew fwy na dwywaith bob wythnos, a phan y'u darperir, ni chaniateir i fwy nag un dogn fod wedi ei ffrio'n ddwfn.

**Bwyd sydd wedi ei ffrio'n ddwfn neu ei ffrio'n sydyn neu pan fo caen yn cynnwys olew**

**13.**—(1) Ni chaniateir darparu dogn o fwyd yn is-baragraff (2) fwy nag unwaith bob wythnos.

(2) Bwyd sydd—

(a) wedi ei ffrio'n ddwfn neu ei ffrio'n sydyn ar fangre ysgol neu yn ystod y broses weithgynhyrchu, gan gynnwys cynhyrchion bwyd wedi eu paratoi, eu caenu, eu rhoi mewn cytew a'u gorchuddio â briwsion bara, neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) wedi ei gaenu neu wedi ei orchuddio â briwsion bara pan fo'r caen neu'r briwsion bara yn cynnwys olew.

(3) Nid yw "bwyd" yn is-baragraff (2) yn cynnwys tatws na chynhyrchion tatws.

**Crwst a chynhyrchion crwst**

**14.** Ni chaniateir darparu dogn o grwst na chynhyrchion sy'n cynnwys crwst (pa un ai'n felys neu'n sawrus) fwy nag unwaith bob wythnos.

**Cynhyrchion pob wedi eu melysu a phwdinau wedi eu melysu**

**15.** Ni chaniateir darparu dogn o gynhyrchion pob wedi eu melysu a phwdinau wedi eu melysu fwy na theirgwaith bob wythnos, a phan y'u darperir, ni chaniateir i fwy nag un fod yn grwst melys neu'n gynnyrch melys sy'n cynnwys crwst.

**Melysion a byrbrydau sawrus**

**16.**—(1) Ni chaniateir darparu melysion na bwyd sy'n cynnwys melysion.

(2) Ni chaniateir darparu byrbrydau sawrus.

**Halen**

**17.** Nid oes unrhyw halen i gael ei ychwanegu at fwyd, nac i fod ar gael i'w ychwanegu at fwyd, ar ôl i'r broses goginio gael ei chwblhau.

**Cynfennau**

**18.** Ni chaniateir i ddogn unrhyw un neu ragor o'r cynfennau a roddir ar gael i ddisgyblion fod yn fwy na 10ml fesul cynfen.

**Diodydd**

**19.**—(1) Dim ond y diodydd a ganlyn y caniateir eu darparu—

(a) dŵr plaen (llonydd neu befriog);

(b) llaeth plaen y mae rhaid iddo fod—

(i) yn llaeth cyflawn neu'n llaeth hanner sgim pan ddarperir y ddiod i ddisgybl cofrestredig mewn dosbarth meithrin, a

(ii) yn llaeth hanner sgim, yn llaeth ag 1% o fraster neu'n llaeth sgim pan ddarperir y ddiod i ddisgybl cofrestredig mewn blwyddyn derbyn, ym mlwyddyn 1 neu ym mlwyddyn 2 neu i ddisgybl iau;

(c) diodydd plaen sydd wedi eu seilio ar blanhigion.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Ond caniateir darparu sudd ffrwythau fel diod fel rhan o ginio ysgol ar drip ysgol.

## ATODLEN 4

Rheoliad 5

## Gofynion ar gyfer bwyd a diod a ddarperir heblaw fel rhan o frecwast ysgol neu ginio ysgol

**1.** Rhaid i naill ai ffrwythau neu lysiau neu'r ddau fod ar gael mewn unrhyw fan ar fangre ysgol lle y darperir bwyd.

**2.** Ni chaniateir darparu'r bwyd a ganlyn—

(a) cig coch;

(b) cynhyrchion cig penodedig;

(c) dewisiadau amgen wedi eu prosesu yn lle cig a physgod;

(d) tatws a chynhyrchion tatws wedi eu coginio mewn braster neu olew;

(e) bwyd a ddisgrifir ym mharagraff 13(2) o Atodlen 3;

(f) crwst a chynhyrchion sy'n cynnwys crwst;

(g) cynhyrchion pob wedi eu melysu a phwdinau wedi eu melysu;

(h) melysion a bwyd sy'n cynnwys melysion;

(i) byrbrydau sawrus;

(j) cynfennau.

**3.** Nid oes unrhyw halen i gael ei ychwanegu at fwyd, nac i fod ar gael i'w ychwanegu at fwyd, ar ôl i'r broses goginio gael ei chwblhau.

**4.** Dim ond y diodydd a ganlyn y caniateir eu darparu—

(a) dŵr plaen (llonydd neu befriog);

(b) llaeth plaen y mae rhaid iddo fod—

(i) yn llaeth cyflawn neu'n llaeth hanner sgim pan ddarperir y ddiod i ddisgybl cofrestredig mewn dosbarth meithrin, a

(ii) yn llaeth hanner sgim, yn llaeth ag 1% o fraster neu'n llaeth sgim pan ddarperir y ddiod i ddisgybl cofrestredig mewn blwyddyn derbyn, ym mlwyddyn 1 neu ym mlwyddyn 2 neu i ddisgybl iau;

(c) diodydd plaen sydd wedi eu seilio ar blanhigion.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 5

Rheoliad 4

## Safonau maeth ar gyfer cinio mewn ysgolion cynradd a gynhelir

### Dehongli

**1.**—(1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cinio ysgol i ddisgyblion iau" ("*junior school lunch*") yw cinio ysgol a ddarperir i ddisgybl iau;

ystyr "cinio ysgol i fabanod" ("*infant school lunch*") yw cinio ysgol a ddarperir i ddisgybl o oedran babanod;

"cinio ysgol wedi ei eithrio" ("*excluded school lunch*") yw cinio ysgol sydd wedi ei gyfansoddi o fwyd a diod yr amcangyfrifir ei fod i gael ei weini i lai nag 1% o'r disgyblion cofrestredig y gweinir cinio ysgol iddynt mewn—

(a) ysgol gynradd a gynhelir, neu

(b) grŵp o ysgolion, pan fo bwydlenni ciniawau ysgol yn cael eu cynllunio ar gyfer grŵp o ysgolion;

ystyr "cylch bwydlenni" ("*menu cycle*") yw cynllun bwydlenni ar gyfer ciniawau ysgol sy'n parhau am gyfnod heb fod yn llai nag un wythnos a heb fod yn fwy na 4 wythnos yn ystod tymor;

ystyr "grŵp o ysgolion" ("*group of schools*") yw dwy neu ragor o ysgolion cynradd a gynhelir;

ystyr "maethyn" ("*nutrient*") yw unrhyw sylwedd a restrir yn Nhabl 2 neu Dabl 3.

(2) Pan fo ysgol gynradd a gynhelir ar gau ar unrhyw ddiwrnod yn ystod cylch bwydlenni, rhaid i'r cyfrifiadau sy'n ofynnol o dan baragraffau 5 a 9 gael eu gwneud fel pe bai'r ysgol ar agor ar y diwrnod hwnnw ac fel pe bai'r ciniawau ysgol a fyddai fel arall yn cael eu cynllunio ar gyfer y diwrnod hwnnw o'r cylch bwydlenni wedi eu darparu.

(3) Pan ddarperir ciniawau ysgol i nodi unrhyw achlysur crefyddol neu ddiwylliannol, rhaid i'r cyfrifiadau sy'n ofynnol o dan baragraffau 5 a 9 gael eu gwneud fel pe na bai'r ciniawau ysgol hynny yn cael eu darparu ac fel pe bai'r ciniawau ysgol a fyddai fel arall yn cael eu cynllunio ar gyfer y diwrnod hwnnw o'r cylch bwydlenni wedi eu darparu.

### Defnyddio fformiwlâu

**2.**—(1) Rhaid defnyddio'r fformiwlâu a nodir ym mharagraffau 3(1) a 5(1)—

(a) ar gyfer ysgol gynradd a gynhelir pan na fo bwydlenni ciniawau ysgol i fabanod ond yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cael eu cynllunio ar gyfer yr ysgol gynradd a gynhelir honno;

(b) ar gyfer grŵp o ysgolion pan fo bwydlenni ciniawau ysgol i fabanod yn cael eu cynllunio ar gyfer grŵp o ysgolion.

(2) Rhaid defnyddio'r fformiwlâu a nodir ym mharagraffau 7(1) a 9(1)—

(a) ar gyfer ysgol gynradd a gynhelir pan na fo bwydlenni ciniawau ysgol i ddisgyblion iau ond yn cael eu cynllunio ar gyfer yr ysgol gynradd a gynhelir honno;

(b) ar gyfer grŵp o ysgolion pan fo bwydlenni ciniawau ysgol i ddisgyblion iau yn cael eu cynllunio ar gyfer grŵp o ysgolion.

**Cinio ysgol dyddiol cyfartalog i fabanod**

**3.**—(1) Rhaid i'r cinio ysgol dyddiol cyfartalog i fabanod ar gyfer ysgol gynradd a gynhelir neu grŵp o ysgolion gael ei gyfrifo yn unol â'r fformiwla a ganlyn—

$$\frac{A}{B}$$

Ac—

"A" yw cyfanswm yr egni a ddarperir yn yr holl giniawau ysgol i fabanod yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini mewn diwrnod;

"B" yw nifer y ciniawau ysgol i fabanod yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini ar y diwrnod hwnnw.

(2) Wrth gyfrifo "A", ni chaniateir cynnwys y canlynol—

(a) cyfanswm yr egni a ddarperir yn yr holl giniawau ysgol wedi eu heithrio yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini i ddisgyblion o oedran babanod ar y diwrnod hwnnw, na

(b) cyfanswm yr egni a ddarperir mewn bara atodol.

(3) Wrth gyfrifo "B", ni chaniateir cynnwys nifer y ciniawau ysgol wedi eu heithrio yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini i ddisgyblion o oedran babanod ar y diwrnod hwnnw.

**4.** Rhaid i'r cinio ysgol dyddiol cyfartalog i fabanod ddarparu swm o egni sydd o fewn yr ystod o 365 o gilocalorïau i 493 o gilocalorïau.

**Cinio ysgol cyfartalog i fabanod mewn cylch bwydlenni**

**5.**—(1) Rhaid i'r cinio ysgol cyfartalog i fabanod mewn cylch bwydlenni ar gyfer ysgol gynradd a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gynhelir neu grŵp o ysgolion gael ei gyfrifo yn unol â’r fformiwla a ganlyn—

$$\frac{C}{D}$$

Ac—

“C” yw cyfanswm yr egni a’r maethynnau a ddarperir yn yr holl giniawau ysgol i fabanod yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini mewn cylch bwydlenni;

“D” yw nifer y ciniawau ysgol i fabanod yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini yn ystod y cylch bwydlenni hwnnw.

(2) Wrth gyfrifo “C”, ni chaniateir cynnwys y canlynol—

(a) cyfanswm yr egni a’r maethynnau a ddarperir yn yr holl giniawau ysgol wedi eu heithrio yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini i ddisgyblion o oedran babanod yn ystod y cylch bwydlenni hwnnw, na

(b) cyfanswm y cynnwys o ran egni a maethynnau a ddarperir mewn bara atodol.

(3) Wrth gyfrifo “D”, ni chaniateir cynnwys nifer y ciniawau ysgol wedi eu heithrio yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini i ddisgyblion o oedran babanod yn ystod y cylch bwydlenni hwnnw.

**6.** Rhaid i’r cinio ysgol cyfartalog i fabanod mewn cylch bwydlenni ddarparu—

(a) swm o egni sydd o fewn yr ystod o 408 o gilocalorïau i 450 o gilocalorïau,

(b) dim mwy na’r uchafsymiau o fraster, braster dirlawn, siwgrau rhydd a sodiwm a ddangosir yn Nhabl 2, ac

(c) o leiaf yr isafsymiau o’r holl faethynnau eraill a ddangosir yn Nhabl 2.

**Tabl 2**

| *Maethyn* | *Isafswm neu Uchafswm* | *Swm* |
|---|---|---|
| Braster (gramau) | Uchafswm | 16.8 |
| Braster dirlawn (gramau) | Uchafswm | 5.3 |
| Carbohydradau (gramau) | Isafswm | 57.3 |
| Siwgrau rhydd (gramau) | Uchafswm | 5.7 |
| Ffibr (gramau) | Isafswm | 5.3 |
| Protein (gramau) | Isafswm | 5.91 |
| Haearn (miligramau) | Isafswm | 2.1 |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Sinc (miligramau) | Isafswm | 2.3 |
| Calsiwm (miligramau) | Isafswm | 157.5 |
| Fitamin A (microgramau) | Isafswm | 140 |
| Fitamin C (miligramau) | Isafswm | 10.5 |
| Ffolad (microgramau) | Isafswm | 35 |
| Sodiwm (miligramau) | Uchafswm | 360 |

**Cinio ysgol dyddiol cyfartalog i ddisgyblion iau**

**7.**—(1) Rhaid i'r cinio ysgol dyddiol cyfartalog i ddisgyblion iau ar gyfer ysgol gynradd a gynhelir neu grŵp o ysgolion gael ei gyfrifo yn unol â'r fformiwla a ganlyn—

$$\frac{E}{F}$$

Ac—

"E" yw cyfanswm yr egni a ddarperir yn yr holl giniawau ysgol i ddisgyblion iau yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini mewn diwrnod;

"F" yw nifer y ciniawau ysgol i ddisgyblion iau yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini ar y diwrnod hwnnw.

(2) Wrth gyfrifo "E", ni chaniateir cynnwys y canlynol—

(a) cyfanswm yr egni a ddarperir yn yr holl giniawau ysgol wedi eu heithrio yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini i ddisgyblion iau ar y diwrnod hwnnw, na

(b) cyfanswm yr egni a ddarperir mewn bara atodol.

(3) Wrth gyfrifo "F", ni chaniateir cynnwys nifer y ciniawau ysgol wedi eu heithrio yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini i ddisgyblion iau ar y diwrnod hwnnw.

**8.** Rhaid i'r cinio ysgol dyddiol cyfartalog i ddisgyblion iau ddarparu swm o egni sydd o fewn yr ystod o 449 o gilocaloriau i 607 o gilocaloriau.

**Cinio ysgol cyfartalog i ddisgyblion iau mewn cylch bwydlenni**

**9.**—(1) Rhaid i'r cinio ysgol cyfartalog i ddisgyblion iau mewn cylch bwydlenni ar gyfer ysgol gynradd a gynhelir neu grŵp o ysgolion gael ei gyfrifo yn unol â'r fformiwla a ganlyn—

$$\frac{G}{H}$$

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ac—

"G" yw cyfanswm yr egni a'r maethynnau a ddarperir yn yr holl giniawau ysgol i ddisgyblion iau yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini yn ystod cylch bwydlenni;

"H" yw nifer y ciniawau ysgol i ddisgyblion iau yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini yn ystod y cylch bwydlenni hwnnw.

(2) Wrth gyfrifo "G", ni chaniateir cynnwys y canlynol—

(a) cyfanswm yr egni a'r maethynnau a ddarperir yn yr holl giniawau ysgol wedi eu heithrio yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini i ddisgyblion iau yn ystod y cylch bwydlenni hwnnw, na

(b) cyfanswm yr egni a'r maethynnau a ddarperir mewn bara atodol.

(3) Wrth gyfrifo "H", ni chaniateir cynnwys nifer y ciniawau ysgol wedi eu heithrio yr amcangyfrifir eu bod i gael eu gweini i ddisgyblion iau yn ystod y cylch bwydlenni hwnnw.

**10.** Rhaid i'r cinio ysgol cyfartalog i ddisgyblion iau mewn cylch bwydlenni ddarparu—

(a) swm o egni sydd o fewn yr ystod o 502 o gilocaloriau i 554 o gilocaloriau,

(b) dim mwy na'r uchafsymiau o fraster, braster dirlawn, siwgrau rhydd a sodiwm a ddangosir yn Nhabl 3, ac

(c) o leiaf yr isafsymiau o'r holl faethynnau eraill a ddangosir yn Nhabl 3.

**Tabl 3**

| *Maethyn* | *Isafswm neu Uchafswm* | *Swm* |
|---|---|---|
| Braster (gramau) | Uchafswm | 20.5 |
| Braster dirlawn (gramau) | Uchafswm | 6.5 |
| Carbohydradau (gramau) | Isafswm | 70.4 |
| Siwgrau rhydd (gramau) | Uchafswm | 7 |
| Ffibr (gramau) | Isafswm | 6 |
| Protein (gramau) | Isafswm | 8.5 |
| Haearn (miligramau) | Isafswm | 3 |
| Sinc (miligramau) | Isafswm | 2.5 |
| Calsiwm (miligramau) | Isafswm | 193 |
| Fitamin A (microgramau) | Isafswm | 175 |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Fitamin C (miligramau) | Isafswm | 10.5 |
| Ffolad (microgramau) | Isafswm | 53 |
| Sodiwm (miligramau) | Uchafswm | 499 |

## ATODLEN 6 Rheoliad 6

## Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013

**1.** Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 wedi eu diwygio fel y nodir isod.

**2.**—(1) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y lle priodol, yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 11 oed ynddo;";

"mae i "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "school year" gan adran 579(1) o Ddeddf 1996(**1**);";

"ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o ddisgyblion mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, yn ystod blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;";

"ystyr "ysgol uwchradd a gynhelir" ("*maintained secondary school*") yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru sy'n darparu addysg uwchradd (pa un a yw hefyd yn darparu mathau eraill o addysg ai peidio).";

(b) yn y diffiniad o "ysgol fyrddio", o flaen "a gynhelir" mewnosoder "uwchradd";

(c) yn y diffiniad o "pryd gyda'r hwyr", hepgorer "a gynhelir";

(d) yn lle'r diffiniad o "sudd ffrwythau" rhodder—

"ystyr "sudd ffrwythau" ("*fruit juice*") yw—

(a) cynnyrch sy'n cydymffurfio â'r fanyleb yn Atodlen 2 (manyleb sudd ffrwythau)

(**1**) Mewnosodwyd y diffiniad o "school year" yn adran 579(1) gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

i Reoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013(**1**), neu

(b) cynnyrch sy'n cydymffurfio â'r fanyleb yn Atodlen 3 (manyleb sudd ffrwythau o ddwysfwyd) i Reoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013;";

(e) hepgorer y diffiniadau o—

(i) "disgybl iau";

(ii) "ysgol feithrin a gynhelir";

(iii) "ysgol a gynhelir";

(iv) "llaeth";

(v) "ysgol gynradd";

(f) yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau Undeb Ewropeaidd perthnasol" rhodder—

"ystyr "deddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd berthnasol" ("*relevant assimilated direct legislation*") yw—

(a) Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd(**2**);

(b) Rheoliad (EC) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol â phriodoleddau cyflasu i'w defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd(**3**);";

(g) yn y diffiniad o "byrbrydau sawrus"—

(i) ar ôl "yw" mewnosoder "eitemau wedi eu rhagbecynnu ac eithrio melysion, brechdanau, cacennau, bisgedi, cnau a hadau";

(ii) yn is-baragraff (a), hepgorer y geiriau o "eitemau" hyd at "hadau";

(h) yn y diffiniad o "brecwast ysgol"—

(i) hepgorer "ar fangre ysgol";

(ii) hepgorer "neu ysgol arbennig sefydledig";

(i) yn y diffiniad o "diwrnod ysgol" a "mangre ysgol", o flaen "a gynhelir" mewnosoder "uwchradd";

(j) hepgorer y diffiniadau o—

---

(**1**) O.S. 2103/2750 (Cy. 267), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) EUR 2008/1333, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/860, O.S. 2023/343 (Cy. 50), O.S. 2024/741 (Cy. 102) ac O.S. 2025/361.

(**3**) EUR 2008/1334, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/860, O.S. 2023/343 (Cy. 50), O.S. 2024/741 (Cy. 102) ac O.S. 2025/361.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) "ysgol uwchradd";

(ii) "disgybl hŷn".

(2) Ar ôl rheoliad 2(2) mewnosoder—

"(3) Pan fo ysgol uwchradd a gynhelir yn darparu addysg gynradd ac addysg uwchradd, nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i fwyd neu ddiod a ddarperir i ddisgyblion ym mlwyddyn 6 neu is."

**3.** Yn rheoliad 4, o flaen "a gynhelir", ym mhob lle y mae'n digwydd (gan gynnwys y pennawd), mewnosoder "uwchradd".

**4.** Hepgorer rheoliad 5.

**5.** Yn rheoliad 6—

(a) yn y pennawd, hepgorer "cynradd ac";

(b) ym mharagraff (1), o flaen "a gynhelir", yn y ddau le y mae'n digwydd, mewnosoder "uwchradd";

(c) hepgorer paragraffau (3) a (4).

**6.** Yn rheoliad 7—

(a) o flaen "a gynhelir", yn y ddau le y mae'n digwydd (gan gynnwys y pennawd), mewnosoder "uwchradd";

(b) hepgorer paragraff (3).

**7.** Yn rheoliad 8, o flaen "a gynhelir", ym mhob lle y mae'n digwydd (gan gynnwys y pennawd), mewnosoder "uwchradd".

**8.** Yn Atodlen 1—

(a) yn y pennawd, o flaen "a gynhelir", mewnosoder "uwchradd";

(b) hepgorer paragraff 1;

(c) yn lle paragraff 3 rhodder "Rhaid i ddiodydd a ddarperir sydd wedi eu seilio ar laeth gydymffurfio â'r gofynion yn Atodlen 5."

**9.** Hepgorer Atodlen 2.

**10.** Yn Atodlen 3—

(a) yn y pennawd, hepgorer "cynradd ac";

(b) hepgorer paragraff 1;

(c) ym mharagraff 2—

(i) hepgorer is-baragraff (1);

(ii) yn is-baragraff (2), hepgorer "mewn ysgolion uwchradd";

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle "is-baragraffau (1) a (2)" rhodder "is-baragraff (2)";

(d) ym mharagraff 3(3)—

(i) hepgorer paragraff (a);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) ym mharagraff (b), hepgorer "mewn ysgolion uwchradd,";

(e) ym mharagraff 4(1)—

(i) hepgorer paragraff (a) a'r "a" ar ei ôl;

(ii) ym mharagraff (b), hepgorer "mewn ysgolion uwchradd";

(f) ym mharagraff 5(2), yn lle "baragraff (1) mewn ysgolion uwchradd" rhodder "is-baragraff (1)";

(g) ym mharagraff 7—

(i) hepgorer is-baragraff (a);

(ii) yn is-baragraff (b), hepgorer "mewn ysgolion uwchradd";

(h) ym mharagraff 8—

(i) yn is-baragraff (2), yn lle "baragraff" rhodder "is-baragraff";

(ii) yn is-baragraff (3), yn lle "paragraffau" rhodder "is-baragraffau";

(i) ym mharagraff 9, yn y pennawd, yn y testun Saesneg, yn lle "Confectionary" rhodder "Confectionery".

**11.** Yn Atodlen 4—

(a) yn y pennawd, hepgorer "cynradd ac";

(b) yn lle'r diffiniad o "grŵp o ysgolion" rhodder—

"ystyr "grŵp o ysgolion" ("*group of schools*") yw dwy neu ragor o ysgolion uwchradd a gynhelir sydd i gyd yn ysgolion cydaddysgol, i gyd yn ysgolion un rhyw i fechgyn neu i gyd yn ysgolion un rhyw i ferched;";

(c) ym mharagraff 2(1), ar ôl "ar gyfer ysgol" rhodder "uwchradd a gynhelir";

(d) yn Nhabl C—

(i) hepgorer y drydedd golofn;

(ii) yn y bedwaredd golofn, yn y pennawd, ar ôl "uwchradd" mewnosoder "a gynhelir".

**12.** Yn Atodlen 5—

(a) yn y pennawd, ar ôl "ysgolion" rhodder "uwchradd";

(b) yn y geiriau o flaen y tabl, yn lle "ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir" rhodder "ysgolion uwchradd a gynhelir";

(c) yn Nhabl D—

(i) hepgorer yr ail golofn a'r drydedd golofn;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) yn y bedwaredd golofn, yn y pennawd, ar ôl “uwchradd” mewnosoder “a gynhelir”;

(iii) yn y cofnod ar gyfer llaeth plaen, yn y bumed golofn, yn lle’r geiriau o “laeth a ddarperir mewn ysgolion meithrin” hyd at “uwchradd” rhodder “laeth a ddarperir”;

(iv) yn y chweched golofn, yn lle “Rheoliadau Undeb Ewropeaidd perthnasol a ddiffiniwyd yn rheoliad 2 o’r Rheoliadau hyn”, ym mhob lle y mae’r geiriau hynny’n digwydd, rhodder “ddeddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd berthnasol”.

**13.** Yn Atodlen 6—

(a) yn y pennawd, ar ôl “ysgolion” rhodder “uwchradd”;

(b) yn Nhabl E—

(i) yn y golofn gyntaf, yn y testun Saesneg, yn lle “Confectionary” rhodder “Confectionery”;

(ii) yn y golofn gyntaf, yn lle “Cynhyrchion Cig” rhodder “Cynhyrchion sy’n cynnwys cig”;

(iii) hepgorer yr ail golofn a’r drydedd golofn;

(iv) yn y bedwaredd golofn, yn y pennawd, ar ôl “uwchradd” mewnosoder “a gynhelir”.